# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

10.00 am. Dydd Gwener, 15fed Ebrill, 2011
Bodlondeb, Conwy

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Howie Roberts | Cadeirydd Conwy (Cadeirydd) |
| | Barry Davies | Swyddog Monitro Sir y Fflint |
| | Iwan Davies | Swyddog Monitro Conwy |
| | Rob Dawson | Cadeirydd Wrecsam |
| | Gwilym Ellis Evans | Is-gadeirydd Gwynedd |
| | Sion Hughes | Swyddog Priodoldeb Gwynedd |
| | Lisa Jones | Dirprwy Swyddog Monitro Sir Ddinbych |
| | Robyn Jones | Dirprwy Swyddog Monitro Ynys Môn |
| | Jane Kennedy | Dirprwy Swyddog Monitro Sir Ddinbych |
| | Sue Morris | Is-gadeirydd Sir Ddinbych |
| | John Pollard | Cadeirydd Gwynedd |
| | Geraint F. Roberts | Is-gadeirydd Sir Ddinbych |
| | Merfyn Roberts | Cadeirydd Sir y Fflint |
| | Kevin Sibbons | Is-gadeirydd Sir y Fflint |
| | Paul Sturges | Is-gadeirydd Conwy |
| | Gary Williams | Dirprwy Swyddog Monitro Wrecsam |
| **Swyddogion:** | Sian Harland | Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor |

1. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Lynn Ball (Swyddog Monitro – Ynys Môn), Clive Halliday (Cadeirydd Sir Ddinbych ), Jeff Cotterell (Cadeirydd Ynys Môn), Ceri Nash (Is-gadeirydd – Wrecsam), Trevor Coxon (Swyddog Monitro – Wrecsam) a Dilys Phillips (Swyddog Monitro – Gwynedd).

2. **CROESO GAN GADEIRYDD PWYLLGOR SAFONAU CONWY**

Croesawodd Cadeirydd Pwyllgor Safonau Conwy pawb a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

Nodwyd fod pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wedi anfon cynrychiolwyr. Roedd hyn yn dangos fod sefydlu Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn syniad da.

3. **CYFLWYNIAD GAN IS-GADEIRYDD PWYLLGOR SAFONAU CONWY**

Dywedodd Is-gadeirydd Conwy wrth y cynrychiolwyr a oedd yn bresennol, ei fod yn gobeithio y byddai Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn gallu cyflwyno barn Gogledd Cymru mewn digwyddiadau cenedlaethol ac arbed arian trwy rannu syniadau / adnoddau.

Trefn anffurfiol fyddai i'r trafodaethau a gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol i fynegi eu barn am y ffordd orau ymlaen a'r hyn y gellir ei gyflawni yn eu tyb hwy.

4. **Y FFORDD YMLAEN**

Trafododd bawb a oedd yn bresennol faterion amrywiol yn ymwneud â Phwyllgorau Safonau yn fanwl.

Roedd yn amlwg fod gan bob pwyllgor safonau broblemau tebyg a nodwyd y prif faterion a ganlyn:

**Trefnu Gweithdai**

- Byddai'n bosibl cynnal gweithdai ar lefel Gogledd Cymru i ymdrin â materion amrywiol, fel y gweithdai sy'n cael eu cynnal yng Nghynhadledd Safonau Cymru.

**Sefydlu Cysondeb**

- Roedd yn amlwg y gellir trafod cysondeb ynglŷn â goddefebau i gynghorwyr, ac a ddylai aelodau annibynnol aros i drafod adroddiadau wedi'u heithrio.

**Canfod Meysydd Gwaith ar gyfer Pwyllgorau Safonau**

- Roedd Conwy wedi trefnu Cyfarfodydd bob deufis a bydd yn cyflwyno Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer pob cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Byddai'r eitemau i'w trafod yn cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon, Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru, Paratoi ar gyfer Hyfforddiant, Adolygu'r Gofrestr Anrhegion a Lletygarwch, Adolygu Trefnau'n Flynyddol, Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor yn flynyddol, Cwynion na chafodd eu dilyn gan yr Ombwdsmon, Adolygu Cwynion am Gamweinyddu gan y Cyngor, Gweithdai Gloywi ynglŷn â Safonau i aelodau'r Pwyllgor, Paratoi ar gyfer Hyfforddiant Cod Ymddygiad.
- Cytunodd aelodau Sir y Fflint ei fod yn bwysig cyfarfod yn rheolaidd fel bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn meithrin perthynas waith dda ar gyfer Gwrandawiadau Safonau.
- Roedd Pwyllgor Safonau Sir y Fflint yn cyfarfod bob chwarter ac roedd ganddynt lwyth gwaith penodol, Roeddent yn adolygu'r Polisi Canu Cloch ar hyn o bryd.

**Hyfforddiant**

- Roedd pob awdurdod lleol yn cynnig hyfforddiant i gynghorwyr sir a chymuned ond roedd yn glir mai'r broblem ym mhob man oedd denu'n cynghorwyr hynny roedd angen hyfforddiant arnynt.
- Roedd Conwy wedi darparu sesiynau Hyfforddi Hyfforddwyr ar y Cod Ymddygiad ar gyfer clercod cynghorau tref a chymuned. Cyflwynwyd adnodau ar bapur ac yn electronig i'w galluogi i hyfforddi eu cynghorwyr eu hunain.
- Gellir trafod fframwaith cyffredin ledled Gogledd Cymru ar gyfer darparu hyfforddiant Cod Ymddygiad yng nghyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol, gan gynnwys rhannu adnoddau.
- Roedd Ynys Môn wedi darparu nifer o sesiynau hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr ynglŷn â sut i fod yn 'Gynghorydd Modern', gan gynnwys yr angen i barchu'r naill a'r llall, yn ogystal â swyddogion.

Roedd y cynghorwyr profiadol iawn yn gyndyn o newid eu barn ynglŷn â swyddogaeth cynghorydd
- Roedd Conwy'n bwriadu cynnal sesiynau hyfforddi gloywi ar gyfer aelodau'i Bwyllgor Safonau, gan gynnwys astudiaethau achos.
- Roedd Gwynedd yn bwriadu cynnal sesiwn hyfforddiant electronig ar wefan ei Bwyllgor Safonau a fyddai'n cynnwys sesiwn holi ac ateb.

**Sefydlu Arfer Gorau**
- Trwy gydweithio, byddai'n bosibl i awdurdodau lleol sefydlu canllawiau arfer gorau ar gyfer nifer o faterion, gan gynnwys goddefebau, protocolau a hyfforddiant.

**Gweithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref**
- Roedd pryderon nad oedd cynghorau cymuned yn gwybod am bwysigrwydd y Cod Ymddygiad na datgan cysylltiadau.
- Roedd Sir y Fflint wedi sefydlu Fforwm gyda chynghorau cymuned a thref a oedd yn cyfarfod bob chwe mis.

**Hyrwyddo Pwyllgorau Safonau**
- Wrth hyrwyddo ei Bwyllgor Safonau, roedd Conwy wedi cyflwyno erthygl yn y 'Briff Tîm' a rhoddwyd cyflwyniad i'r Cyngor Staff hefyd.
- Roedd Cadeirydd Sir Ddinbych wedi bod mewn nifer o gyfarfodydd fel sylwedydd, gan gynnwys y Pwyllgor Craffu.
- Roedd Conwy'n annog eu haelodau annibynnol i fynd i gyfarfodydd er mwyn deall y broses ddemocrataidd yn well.

**Ymatebion i Bolisïau Cenedlaethol a Sylwadau**
- Yn dilyn penderfyniad y Panel Dyfarnu am fater yng Ngherrigydrudion, disgwylir penderfyniad gan yr Ombwdsmon a oedd rhaid i aelodau nad oeddent ar y Pwyllgor Gwaith ddatgan cysylltiad personol a chysylltiadau a oedd yn rhagfarnu yn gysylltiedig ag eitem os oedd gwrthdaro rhwng eu swyddogaeth fel aelod lleol, ac aelod a oedd yn gwneud penderfyniadau ar bwyllgorau, yn enwedig yn gysylltiedig â Phwyllgor Cynllunio.
- Ar hyn o bryd, yr unig ffordd ymlaen oedd i gynghorwyr ofyn am oddefeb gan eu Pwyllgor Safonau.
- Efallai byddai'n anodd i'r Ombwdsmon gynnig canllawiau i geisio newid ystyr y Cod Enghreifftiol a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC): byddai'n well petai LlCC yn ei newid.
- Nodwyd bod Grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan yn ystyried y mater ar gyfer y wlad i gyd.
- Yn y dyfodol, byddai Fforwm Pwyllgorau Safonau Cymru'n gallu rhoi pwysau ar yr Ombwdsmon i ddarparu canllawiau clir ar faterion fel hyn, yn hytrach na phob awdurdod lleol yn cyflwyno llais unigol.
- Nodwyd hefyd y byddai'r Fforwm yn gallu ymateb ar y cyd ar faterion cenedlaethol.

**Protocolau Aelodau / Aelod ac Aelod / Swyddogion**
- Roedd gan Gonwy broses gysylltu anffurfiol fel bod staff yn gallu cysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau i drafod eu pryderon ynglŷn ag ymddygiad cynghorydd, cyn cyflwyno unrhyw gwyn ffurfiol.

- Roedd Gwynedd wedi mabwysiadu Protocol Aelod / Aelod a oedd yn cynnwys canllawiau sut i barchu'i gilydd a sut ddylai cynghorwyr drin y naill a'r llall mewn cyfarfodydd.

**Cynhadledd Safonau Gogledd Cymru**

- Gellir gwahodd siaradwyr i Gynhadledd Safonau Blynyddol Gogledd Cymru, gan gynnwys yr Ombwdsmon, i alluogi awdurdodau lleol Gogledd Cymru drafod materion yn uniongyrchol gydag ef.

Yn dilyn trafodaethau, roedd yn amlwg fod angen llawer o gydweithio a chytunwyd y byddai angen cynnal nifer o sesiynau yn ystod y misoedd nesaf.

Awgrymwyd gwahodd aelodau Pwyllgor Safonau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac aelodau Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri i'r cyfarfod nesaf.

Trafodir y materion a nodwyd uchod yn fanylach yng nghyfarfodydd y dyfodol.

**CYTUNWYD -**

**(a) i drafod y prif faterion a nodwyd uchod yn fanylach yng nghyfarfodydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn y dyfodol.**

**(b) Gwahodd aelodau Pwyllgor Safonau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac aelodau Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri i gyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol.**

5. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**CYTUNWYD -**

**i gynnal cyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru am 10 y.b. dydd Gwener 10 Mehefin 2011.**

(Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 y.b.)